

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

Y BIL DIOGELU RHYDDIDAU – GWELLIANNAU I GYMALAU MEWN PERTHYNAS Â'R DDEDDF RHYDDID GWYBODAETH O RAN TRYLOYWDER

Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol

1. “Bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried, yn ychwanegol at y darpariaethau y cyfeiriwyd atynt yn NDM4680, y darpariaethau pellach hynny a ddygwyd gerbron yn y Bil Diogelu Rhyddidau sy'n ymwneud â rhyddid gwybodaeth a diogelu data, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru.”

Cefndir

2. Cyflwynwyd y Cynnig Cymhwysedd Deddfwriaethol ym mharagraff 1 uchod gan Carwyn Jones AC, Prif Weinidog Cymru, o dan Reol Sefydlog 29.6 o Reolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad Cenedlaethol). Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29 yn rhagnodi bod yn rhaid cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, a gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron y Cynulliad Cenedlaethol os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.

3. Cyflwynwyd y Bil Diogelu Rhyddidau (y Bil) ar 11 Chwefror 2011. Gellir gweld y Bil yn <http://services.parliament.uk/bills/2010-11/protectionoffreedoms/documents.html>

Crynodeb o'r Bil a'i Amcanion Polisi

4. Noddir y Bil gan y Swyddfa Gartref. Prif ddiben y Bil yw adfer hawliau a rhyddidau unigolion. Nod Llywodraeth y DU yw “to roll back the State, reducing the weight of government imposition on citizens that has increased in recent years through legislation and centralised programmes” .

Mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth yn y meysydd canlynol:

- cadw DNA
- Diogelu gwybodaeth fiometrïg am blant mewn ysgolion a cholegau
- Mwy o reoleiddio ar systemau teledu cylch cyfyng/adnabod rhifau ceir yn awtomatig
- Pwerau mynediad
- Gwahardd clampio olwynion
- Diwygio'r cynllun fetio a gwahardd a'r gyfundrefn cofnodion troseddol
- Peidio â datgelu collfarnau wedi'u dad-droseddoli am gael rhyw hoyw cydsyniol
- Rhyddid gwybodaeth
- Yr hawl i ddata
- Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

- Treialon mewn perthynas â thwyll difrifol

5. Mae'r Bil Diogelu Rhyddidau eisoes wedi bod yn destun Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol (NDM4680) yn y Cynulliad Cenedlaethol pan roddodd y Cynulliad Cenedlaethol ei gydsyniad i Senedd y Deyrnas Unedig ystyried darpariaethau perthnasol y Bil i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol.

Y diwygiadau i'r Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer

6. Mae'r Bil yn cynnwys Cymal (rhif 100) a fyddai, pe bai'n troi'n ddeddf, yn diwygio Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Yn arbennig, byddai'r Cymal hwn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus fynd ati i gyhoeddi setiau data ar ffurf y gellir ei hailddefnyddio pan fo ceisydd yn gofyn am set ddata.

7. Gosododd Llywodraeth y DU welliannau a oedd yn ymwneud â rhyddid gwybodaeth yn ystod y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin, ac mae'r rhain wedi'u derbyn. Roedd y gwelliannau'n ymwneud â'r darpariaethau codi tâl, a fyddai wedi cael yr effaith anfwriadol o gael gwared ar y posibilrwydd o godi tâl am unrhyw setiau data y gofynnir amdanynt gan awdurdod cyhoeddus. Nod y gwelliannau yw cadw'r pwerau statudol presennol i godi tâl a darparu pŵer i wneud rheoliadau newydd er mwyn caniatáu codi tâl. Byddai'r gwelliannau hyn yn sicrhau (1) y gall yr holl awdurdodau cyhoeddus sydd â phwerau statudol ar hyn o bryd (ac eithrio o dan Reoliadau Ailddefnyddio Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus 2005) barhau i ddefnyddio'r pwerau hynny i godi tâl a (2) y gall yr holl awdurdodau cyhoeddus nad ydynt yn meddu ar eu pwerau statudol eu hunain, ond y cânt ddefnyddio Rheoliadau Ailddefnyddio Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus i godi tâl, neu sy'n codi tâl o dan bŵer anstatudol (ee cyfraith gyffredin neu bwerau uchelfreiniol), barhau i godi tâl o dan y rheoliadau newydd.

8. Dyma effeithiau manwl y gwelliannau:

- Bydd darpariaethau newydd yn adran 11 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn caniatáu i awdurdodau cyhoeddus godi ffioedd am sicrhau bod setiau data ar gael i'w hailddefnyddio. Mae'r is-adran (3) newydd yn darparu y gall awdurdod cyhoeddus godi ffi yn rhinwedd rholiadau a wneir o dan adran newydd 11B ac mae is-adran (4) yn cadw pwerau statudol presennol awdurdodau cyhoeddus i godi ffi. Mae'r is-adran (5) newydd yn darparu, pan fo awdurdod cyhoeddus yn bwriadu codi ffi, bod yn rhaid iddo roi "hysbysiad ffi aildefnyddio", sy'n nodi swm y ffi y mae'n rhaid ei thalu cyn i'r set ddata fod ar gael i'w hailddefnyddio. Mae'r is-adran (6) newydd yn darparu, pan fo'r awdurdod cyhoeddus wedi rhoi hysbysiad aildefnyddio i'r ceisydd, nad yw'n ofynnol iddo sicrhau bod y set ddata ar gael i'w hailddefnyddio hyd nes i'r ffi gael ei thalu yn unol â'r hysbysiad; ac mae'r is-adran (7) newydd yn darparu, os yw awdurdod cyhoeddus yn gweithredu unrhyw bŵer statudol cyfredol i godi tâl, y gall yr awdurdod gyfuno'r hysbysiad ffi aildefnyddio ag unrhyw hysbysiad arall yn unol â'r pŵer statudol perthnasol sy'n cael ei arfer.
- Mae'r adran 11B newydd yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch codi ffioedd gan awdurdodau cyhoeddus am sicrhau bod setiau data (sy'n cynnwys y gweithiau hawlfraint perthnasol) ar gael i'w hailddefnyddio. Mae is-adran (1) yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau (sy'n destun y weithdrefn penderfyniad negyddol) ynghylch codi ffioedd mewn perthynas â sicrhau bod y setiau data ar

gael i'w hailddefnyddio mewn ymateb i geisiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a chynlluniau cyhoeddi. Mae is-adrannau (2) a (3) yn pennu beth y caiff y rheoliadau ei ragnodi, megis pryd y gellir codi ffi a phryd na ellir gwneud hynny, a maint y ffi honno.

9. Barn Llywodraeth Cymru yw bod y darpariaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff 8 uchod yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol fel y'i nodir ym Mharagraff 14 o Atodlen 7 (Gweinyddiaeth Gyhoeddus) i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. O dan Baragraff 14 mae gan y Cynulliad Cenedlaethol y cymhwysedd i ddeddfu ar "access to information held by open access public authorities." Y cyrff sy'n dod o fewn y diffiniad o awdurdodau cyhoeddus mynediad agored yw'r Cynulliad, Comisiwn y Cynulliad, Llywodraeth Cymru a'r awdurdodau sy'n cael eu diffinio'n Awdurdodau Cyhoeddus Cymru gan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Manteisio defnyddio'r Bil hwn

10. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol i'r gwelliannau hyn fod yn gymwys i awdurdodau cyhoeddus Cymru yn y Bil hwn ar gyfer y DU gan mai dyma'r dull deddfwriaethol mwyaf priodol a chymesur o sicrhau bod y darpariaethau hyn yn gymwys yng Nghymru cyn gynted â phosibl. Mae'r gwelliannau'n angenrheidiol er mwyn diogelu ffrydiau cyllid sy'n bwysig i awdurdodau cyhoeddus, yr oedd y Bil hwn wedi cael gwared arnynt yn anfwriadol. Ni fydd y gwelliannau hyn yn cyflwyno unrhyw alluoedd newydd i godi tâl am setiau data, ond mae'n bwysig cadw gafael ar y cyfle i godi tâl yn y maes hwn. Mae'r Bil hwn yn cynnig modd o osgoi diffygion ariannol ar gyfer rhai awdurdodau cyhoeddus sy'n ddibynnol ar y gallu i godi tâl am rai o'r setiau data y maent yn eu cynhyrchu.

11. Mae'r gwelliannau hyn yn bwysig er mwyn cyflawni'r amcan polisi a ddymunir, a chan nad oes yna unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i gyflwyno Bil ar gyfer Cymru ar faterion mynediad at wybodaeth, mae yna fanteision sylweddol ynghlwm â defnyddio'r Bil hwn i weithredu'r fframwaith deddfwriaethol priodol sy'n ymwneud â chodi tâl o fewn y cyfnod gofynnol.

Goblygiadau ariannol

12. Nid oes yna unrhyw oblygiadau ariannol yn gysylltiedig â chydsynio i'r gwelliannau.

Carwyn Jones AC
Y Prif Weinidog
Tachwedd 2011